## Bwrdd Cynghori Cymru ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân

## 5 Tachwedd 2018, Canolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd

### Cofnodion

| | |
|---|---|
| **Aelodau** | |
| Michael Prior (MP) | Cadeirydd Annibynnol |
| | |
| **Aelodau Cyflogwyr** | |
| Y Cyng. Sue Pickering (SP) | Awdurdod Tân ac Achub De Cymru |
| Y Cyng. Claire Mills (CM) | Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Y Cyng. Bryan Apsley (BA | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| | |
| **Aelodau Cyflogeion** | |
| Ade Robinson (AR) | Cymdeithas y Swyddogion Tân |
| Sean Starbuck (SS) | Undeb y Brigadau Tân |
| Grant Mayos (GM) | Undeb y Brigadau Tân, Aelod y Cyngor Gweithredol dros Gymru |
| | |
| **Swyddogion yn bresennol** | |
| Chris Barton (CB) | Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |
| Mark Miles (MM) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Helen MacArthur (HM) | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| | |
| **Eraill yn bresennol** | |
| Chris Mulholland (CM) | Adran Actiwari'r Llywodraeth |
| | |
| **Swyddogion Llywodraeth Cymru (Gweinyddiaeth)** | |
| Kerry Citric (KC) | Cangen y Gwasanaethau Tân |
| Cerys Myers (CLM) | Cangen y Gwasanaethau Tân |
| Natalie Spiller (NS) | Cangen y Gwasanaethau Tân |
| | |
| **Ymddiheuriadau** | |
| Adrian Hughes | Cymdeithas Gwasanaethau Tân ac Achub |
| Kevin Jones | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Mark Malson | Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |
| Clair Alcock | Cymdeithas Llywodraeth Leol |
| Richard Fairhead | Cymdeithas yr Arweinwyr Tân |

## 1. EITEM 1 YR AGENDA – CROESO A CHYFLWYNIADAU

1.1 Croesawodd MP bawb i'r cyfarfod a chadarnhaodd fod y cyfarfod yn rhan o gyfres o gyfarfodydd a drefnwyd i ganolbwyntio ar y Prisiad a goblygiadau torri'r cap costau.

1.2 Ymunodd y Cyng. Brian Apsley a Helen McArthur drwy gyfleuster telegynadledda. Rhoddodd CLM ymddiheuriadau ar ran Adrian Hughes, Clair Alcock, Kevin Jones, Mark Malson a Richard Fairhead.

1.3 Cadarnhaodd yr aelodau nad oedd unrhyw wrthdaro buddiannau i'w ddatgan.

## 2. EITEM 2 YR AGENDA – COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

2.1 Cyfeiriodd MP at gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 16 Hydref a chydnabod y cafwyd sylwadau gan GAD. Nododd CLM y newidiadau a chytuno i ailddosbarthu fersiwn ddiwygiedig o'r cofnodion ar ôl y cyfarfod. Ni wnaed unrhyw sylwadau eraill a chytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.

## MATERION YN CODI

2.2 Esboniodd MP y byddai'r pwyntiau gweithredu o'r cyfarfodydd blaenorol yn cael eu gohirio tan i gyfarfodydd arferol y Bwrdd Cynghori ailgychwyn yn y flwyddyn newydd.

## 3. EITEM 3 YR AGENDA – PRISIAD 2016

3.1 Nododd yr aelodau gyhoeddiad y Gyllideb gan Drysorlys EM ar 29 Hydref, a gadarnhaodd Gyfradd Ostyngiad SCAPE o 2.4% ond bod Cyfarwyddiadau Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus (Prisiadau a Chap Costau Cyflogwyr) (Diwygio) 2018 yn parhau i fod ar ffurf ddrafft. Roedd disgwyl y byddai'r rhain yn cael eu cyflwyno ganol mis Tachwedd.

3.2 Crynhodd MP gasgliadau'r cyfarfod blaenorol. Cyfeiriodd at y cyflwyniad gan GAD, a oedd wedi nodi canlyniadau'r prisiad a dewisiadau posibl ar gyfer unioni'r achos o dorri'r cap costau. Cafwyd trafodaeth ynghylch cymhlethdodau nifer o'r dewisiadau ac roedd y Bwrdd Cynghori wedi penderfynu canolbwyntio ar y newid i'r gyfradd gronnus a'r gostyngiad yng nghyfraniadau'r aelodau; er nad oedd y pedwar dewis arall a gyflwynwyd wedi'u diystyru. Ar gais y Bwrdd Cynghori, roedd Llywodraeth Cymru wedi comisiynu GAD i ddarparu rhagor o gyfrifiadau ar gyfer y dewisiadau posibl i unioni'r achos o dorri'r cap costau ar sail cyfuniad o newid y gyfradd gronnus a chyfradd y cyflogeion.

3.3 Cyflwynodd CM ddau dabl i ddangos y cyfuniadau gwella cyfradd gronnus Cynllun 2015 a lleihau cyfradd cyfraniadau'r cyflogeion a fyddai'n mynd i'r afael â'r achos o dorri'r cap costau ar 4.8% o'r cyflog. Roedd y tabl cyntaf yn dangos cyfuniad ar sail newidiadau fesul cam i'r gyfradd gronnus, a'r gostyngiad

canlyniadol gofynnol yng nghyfraniadau'r cyflogeion i unioni'r achos o dorri ynghyd â'r effaith ar gyfradd cyfraniadau'r cyflogwyr. Roedd yr ail dabl yn dangos hyn i'r gwrthwyneb gyda newidiadau fesul cam i gyfradd cyfraniadau'r cyflogeion, y cynnydd canlyniadol gofynnol yn y gyfradd gronnus ar gyfer pob cam, a'r effaith ar gyfradd cyfraniadau'r cyflogwyr.

3.4 Rhoddodd AR ac SS adborth gan Fwrdd Cynghori'r Alban ar y Cynllun. Roedd Bwrdd Cynghori yr Alban wedi comisiynu GAD i lunio dull cymysg o newid y gyfradd gronnus a'r gyfradd cyflogeion, yn debyg i dabl 2 a luniwyd ar gyfer Bwrdd Cynghori Cymru. Byddai'r data yn cael ei ddadansoddi mewn canrannau o 75, 50 a 25. Roedd cyfrifiad ychwanegol wedi'i gymhwyso i'r tabl a oedd yn ymgorffori ffactorau cymudiad uwch. Roedd Bwrdd Cynghori yr Alban wedi gofyn i GAD gyfrifo cost dewis arall a fyddai'n cynnwys newid y gyfradd gronnus fel sefyllfa ddiofyn, ond hefyd yn galluogi aelodau'r cynllun i ethol cyfradd gronnus is i wneud cyfraniadau is (yn debyg i'r dewis 50/50 yn y cynllun pensiwn llywodraeth leol). Roedd hyn yn debyg i drafodaethau cynnar yr adroddodd Clair Alcock amdanynt gan Fwrdd Cynghori Lloegr ar y Cynllun yn y cyfarfod diwethaf.

3.5 Dywedodd MP fod Bwrdd Cynghori Lloegr wedi comisiynu First Actuarial i archwilio'r amryw o ddewisiadau sydd ar gael yn fanylach, gan gynnwys dull cymysg tebyg o gyfraddau cronnus uwch a'r dewis i ethol cynnydd cronnus is i aelodau wneud cyfraniadau is. Roedd First Actuarial wedi cadarnhau y byddent yn rhannu eu canfyddiadau â Bwrdd Cynghori Cymru ac, yn gyfnewid am hyn, roedd Llywodraeth Cymru wedi rhannu cyfrifiadau GAD ar gyfer Bwrdd Cynghori Cymru â First Actuarial. Byddai First Actuarial yn egluro'i ffigyrau i GAD maes o law.

3.6 Gofynnodd MP i KC am effaith ar reoliadau pensiwn pe byddai Bwrdd Cynghori Cymru yn argymell dewis arall nad yw'r dewis diofyn i newid cyfradd gronnus y cynllun. Dywedodd KC y gellid cyflwyno newid i'r gyfradd gronnus erbyn 1 Ebrill, ond pe byddai Llywodraeth Cymru yn cytuno ar unrhyw newidiadau eraill, neu gymysgedd mwy cymhleth o newidiadau, byddai hyn yn arwain at gyflwyno'r newidiadau mewn modd ôl-weithredol. Roedd Trysorlys EM wedi nodi na fyddai'n ariannu unrhyw ostyngiad i gyfradd cyfraniadau cyflogeion. Fel y nodwyd yn y cyfarfod diwethaf, nid oedd gan Lywodraeth Cymru gyllideb i dalu'r costau hyn felly byddai angen i gyflogwyr dalu unrhyw gostau ychwanegol. Nid oedd yn glir sut y byddai'r Trysorlys yn dal cyllid ar gyfer dewis o'r fath yn ôl, a byddai angen trafodaeth i sefydlu eglurder ar y pwynt hwn. Felly roedd yn anodd amcangyfrif amserlen ar gyfer cyflwyno newidiadau o'r fath.

3.7 Dywedodd SS mai swyddogaeth Bwrdd Cynghori Cymru oedd cynghori'r Gweinidogion ond ymddengys bod pob un o'r byrddau cynghori ar y cynllun yn cael eu darbwyllo i ddewis y cynnig cronnus diofyn, ond roedd Undeb y Brigadau Tân o'r farn na fyddai hyn yn addas i'r holl aelodau. Roedd Undeb y Brigadau Tân yn gwerthfawrogi bod rhai o'r dewisiadau efallai yn ychwanegu at faich ariannol cyflogwyr ond roedden nhw'n dymuno darparu cymaint o hyblygrwydd i'w haelodau â phosibl. Roedd aelodau Bwrdd Cynghori Cymru wedi'u dewis i gynrychioli eu sefydliadau perthnasol a thrafod y canlyniad gorau posibl ar gyfer cyflogeion a chyflogwyr. Ychwanegodd GM y byddai angen i unrhyw newid a

wnaed gael ei ystyried fel bod yn werth chweil gan y byddai hyn yn rhoi'r hyder i'r aelodau bod y Byrddau Cynghori yn gwneud eu gwaith.

3.8 Gwahoddodd MP yr aelodau i nodi eu barn ar y dewisiadau a gyflwynwyd, gan gynnwys ystyried y dewis ychwanegol sy'n cael ei gynnig yn yr Alban a Lloegr:

- **Cymdeithas yr Arweinwyr Tân –** gwnaeth KC sylwadau ar ran Richie Fairhead gan nad oedd ef yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod. Roedd Richie wedi ymgynghori ag aelodau'r Gymdeithas yng Nghymru a chafwyd consensws i gynyddu'r gyfradd gronnus i fynd i'r afael â'r achos o dorri llawr y costau. Roedd aelodau'r Gymdeithas hefyd wedi nodi bod dewisiadau eraill a allai fod yn ddefnyddiol i'w harchwilio, fel lleihau % gwirioneddol y gostyngiad ar adeg ymddeol cyn yr oedran pensiwn arferol. Os nad oedd hynny'n bosibl, 'pleidlais y Gymdeithas' fyddai codi'r gyfradd gronnus.

- **Undeb y Brigadau Tân –** ychwanegodd SS fod yr Undeb yn awyddus i ystyried gostwng yr Oedran Pensiwn Arferol, ond roedd yn cydnabod nad oedd hyn yn gymaint o bryder yng Nghymru gan fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno gwell ffactorau ymddeoliad cynnar eisoes. Ychwanegodd KC nad oedd gan Weinidogion Cymru unrhyw ddylanwad dros yr oedran pensiwn arferol gan fod hwn wedi'i bennu yn Neddf 2013.

- Bu peth trafodaeth ynglŷn â chynyddu ffactorau cymudiad o 12:1 i 20-1. Nododd CM y byddai'r swm y gallai'r aelodau eu cymudo yn cynyddu beth bynnag o ganlyniad i wella'r gyfradd gronnus, hyd yn oed pe na byddai'r ffactorau yn newid.

- **Awdurdod Tân ac Achub De Cymru** – cadarnhaodd CB nad oedd yn dymuno lleihau cyfraddau cyfraniadau'r cyflogeion oherwydd bod risg o gynnydd i nifer bobl a fydd yn dewis gadael y cynllun yn y dyfodol, pe byddai torri i'r cyfeiriad arall yn y prisiad nesaf. Roedd yr Awdurdod yn hapus i ystyried darpariaethau hyblygrwydd i'w aelodau ond yn cydnabod y byddai gweithredu sawl dewis yn ychwanegu at faich gweinyddwyr y cynllun.

- **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** – dywedodd HM eu bod o'r un farn ac ychwanegodd y gallai darparu nifer o ddewisiadau gynyddu'r risg o wneud camgymeriadau ac o bosib cynyddu costau gweinyddu'r cynllun. Byddai'n well gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fabwysiadu'r trefniant diofyn i newid y gyfradd gronnus. Cytunodd y Cyng. Apsley â'r farn honno.

- **Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru –** pwysleisiodd y Cyng. Mills fod yn rhaid i'r dewisiadau fod yn realistig. Pe byddai'n ofynnol i'r awdurdodau tân ac achub ysgwyddo cost unrhyw ostyngiad yng nghyfraniadau'r cyflogeion, nid oedd hyn wedi ei gynnwys yn eu cyllideb. Teimlid y gallai rhoi gormod o ddewisiadau i'r aelodau gynyddu cymhlethdod y cynllun ac arwain at ddryswch ymhlith yr aelodau. Dywedodd y Cyng. Mills fod Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ffafrio'r dewis diofyn. Cytunodd MM â'r sylwadau ac ychwanegodd y gallai Penderfyniad

diweddar yr Ombwdsmon Pensiynau ar Gyflog Pensiynadwy ychwanegu at faich cyllideb bresennol yr awdurdodau tân ac achub.

3.9 Gofynnodd MP i Fwrdd Cynghori Cymru gytuno y gellid diystyru'r dewisiadau 'Ailbrisio uwch mewn swydd', 'Gwell Telerau Ymddeoliad Cynnar' a 'Chyfran Dibynnydd'. Cytunodd y Bwrdd Cynghori i beidio ag ystyried y dewisiadau hyn ymhellach.

3.10 Trafododd yr aelodau yn fanylach y cynnig i gynyddu'r gyfradd gronnus yn ddiofyn a'r cynnig i ddewis cyfraniadau cronnus is ar gyfer cyfraniadau cyflogeion is:

- Cyfeiriodd MP at fodel cynllun pensiwn llywodraeth leol a chydnabod y gellid cyflawni rhywbeth tebyg yn y cynllun tân trwy ddefnyddio'r pwynt canol yn nhabl GAD ar gyfer y cynnig "dewis" – trwy wella'r gyfradd gronnus i 1/57 a gostwng cyfraddau cyfraniadau cyflogeion i 2.4% o gyflog pensiynadwy. Byddai hyn yn y pen draw yn arwain at gynnydd o 4.6% o gyflog pensiynadwy i gyfraddau cyfraniadau cyflogwyr (0.2% yn fwy na'r gyfradd gronnus ar ei phen ei hun). Nododd CM serch hynny fod nifer o ffactorau a fyddai'n dylanwadu ar gyfrifiad y gyfradd gronnus pe byddai aelodau yn cael dewis cyfradd is o gyfraniadau.

- Nodwyd y gallai rheoliadau'r cynllun bennu'r amserlen ar gyfer gwneud dewis o'r fath (er enghraifft, bob blwyddyn neu bob 4 blynedd) ond byddai'n haws o ran cymhlethdod a chostau gweinyddol, gweithredu am gyfnod o bedair blynedd.

- Dywedodd CM y gellid cyflwyno hyblygrwydd o'r fath ar unrhyw bryd gan nad oedd hyn wedi'i rwymo'n benodol i unioni'r achos o dorri'r cap costau.

- Amlygodd SS fod Undeb y Brigadau Tân wedi gofyn am ddefnyddio system gyffredin ar gyfer cyfraddau cyfraniadau ar draws y cynlluniau tân, oherwydd byddai dull hyblyg fel yr un dan sylw ar hyn o bryd, yn rhy gymhleth i'w roi ar waith o fewn y strwythur tair haen. Fodd bynnag roedd llywodraethau wedi dewis gweithredu gwahanol gyfraddau cyfraniadau mewn haenau ar draws y tri chynllun.

- Gofynnodd KC i CM egluro'r effaith y byddai dull cymysg fel hyn yn ei chael ar brisiadau yn y dyfodol pe na byddai'r tybiaethau a ddefnyddiwyd yn adlewyrchu'r realiti. Er enghraifft, pe byddai GAD yn tybio y byddai 20% o'r aelodau yn dewis y gyfradd is ar gyfer y cyflogeion ond bod mwy nag 20% yn dewis hyn mewn gwirionedd, sut byddai hynny'n effeithio ar y prisiad nesaf. Dywedodd CM y byddai angen mabwysiadu nifer o dybiaethau yn dibynnu ar y dewisiadau neu gallai canlyniadau Costau'r Cynllun fod yn wahanol iawn i'r hyn a dybiwyd.

- O ran Bwrdd Cynghori yr Alban, cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r hyn y cytunwyd arno. Eglurodd CM fod GAD wedi cytuno i wneud mwy o waith ar y dewis cronnus diofyn â'r cynnig i ddewis cyfraniadau llai ond na fyddai'r gwaith hwn

yn cynnwys dewis gostyngiadau mewn haenau. Yn hytrach, byddai gwaith GAD ar gyfer yr Alban yn edrych ar un cynnig i'r aelodau ei ddewis, sef y gostyngiad cyflogeion llawn a amlygwyd i unioni'r achos o dorri'r cap costau yn yr Alban.

- Roedd disgwyl y byddai diffoddwyr tân ifancach a rhai newydd i'r swydd yn cael eu denu i gyfradd gronnus a chyfraddau cyfraniadau is. Roedd yn bosibl y byddai rhai o'r diffoddwyr tân hŷn hefyd yn dewis hyn er mwyn osgoi torri'r Lwfans Oes.

3.11 Trafododd yr aelodau gostiadau eraill y gallai fod eu hangen gan GAD. Pwysleisiodd KC fod y cyllid sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i gomisiynu rhagor o waith gan GAD yn gyfyngedig a'i bod yn bosibl y bydd yn rhaid i'r Bwrdd Cynghori ysgwyddo'r costau eu hunain, mewn modd tebyg i Fwrdd Cynghori Lloegr, pe byddai'r bwrdd yn dymuno archwilio amrywiaeth o ddewisiadau.

3.12 Cadarnhaodd CM fod GAD yn gallu cynnwys cymudiad yn y tablau a ddarparwyd eisoes a darparu ffigyrau ar gyfer y gyfradd gronnus ddiofyn gyda'r cynnig i ddewis gostyngiad llawn i gyflogeion i leihau cyfraddau cronnus yng Nghymru ar yr un sail a hwnnw y cytunwyd arno yn yr Alban. Byddai'r gwaith hwn wedi ei gwblhau cyn y cyfarfod nesaf.

3.13 Roedd SS yn siomedig na fyddai'r canfyddiadau yn darparu hyblygrwydd llawn. Dywedodd KC y gall y Bwrdd Cynghori gynnwys dewisiadau nad oedd y costau ar eu cyfer wedi'u cyfrifo'n llawn yn rhan o'i argymhellion i Weinidogion Cymru pe byddai'n dymuno gwneud hynny, er nad oedd hyn yn ddelfrydol. Roedd y Bwrdd Cynghori hefyd yn gallu ceisio ei gyngor actiwaraidd ei hun ond byddai'n rhaid i'r Bwrdd ysgwyddo costau hynny. Dywedodd SS fod Undeb y Brigadau Tân wedi ceisio cyngor actiwaraidd annibynnol yn y gorffennol.

**CAM GWEITHREDU: Llywodraeth Cymru i gomisiynu GAD i wneud mwy o waith archwilio ar yr un sail â hwnnw a gomisiynwyd ar gyfer yr Alban.**

3.14 Gofynnwyd i Fwrdd Cynghori Cymru gyflwyno'i argymhellion ar gyfer unioni'r achos o dorri'r cap costau i Weinidogion Cymru erbyn 7 Rhagfyr. Dywedodd KC y gellid ymestyn y dyddiad i 14 Rhagfyr ond y byddai hynny'n cwtogi'r broses ymgynghori rhwng y Bwrdd Cynghori a Gweinidogion Cymru.

## 4. EITEM 4 YR AGENDA – CYFLOG PENSIYNADWY

4.1 Cyfeiriodd MP at y cyfarfod diwethaf pan ddywedodd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ei fod wedi cael penderfyniad gan yr Ombwdsmon Pensiynau. Roedd yr Awdurdod yn ystyried pa un a fyddai'n apelio yn erbyn y penderfyniad ai peidio. Yn yr un modd, roedd Undeb y Brigadau Tân yn ystyried apelio yn erbyn y penderfyniad ar ran yr ymgeisydd.

4.2 Cadarnhaodd MM fod Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi apelio yn erbyn y penderfyniad ar sail lwfansau Chwilio ac Achub Trefol a hyfforddiant. Cadarnhaodd SS fod Undeb y Brigadau Tân wedi cyflwyno apêl

hefyd. Byddai'r achos yn mynd i'r Uchel Lys ond nid oedd yr amserlen yn hysbys. Cadarnhaodd MM fod yr Awdurdod yn cadw at ei safbwynt o ran cyflog pensiynadwy hyd nes y bydd y canlyniad yn hysbys.

## 5. EITEM 5 YR AGENDA – UNRHYW FUSNES ARALL

5.1 Cadarnhaodd yr aelodau nad oedd unrhyw fusnes arall i'w adrodd.

5.2 Nododd yr aelodau amseriad cyfarfod nesaf y pwyllgor Effeithiolrwydd Cost a oedd wedi ei drefnu ar gyfer 12 Tachwedd. Cadarnhaodd MP fod cyfarfod nesaf y Bwrdd Cynghori wedi'i drefnu i'w gynnal ar 27 Tachwedd yn Swyddfa Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd.